# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 245 Pris £1 Mis | Mehefin 2022



## Cocos Penclawdd

Harry Williams

## Ydych chi wedi talu am eich papur bro?

Os ydych wedi anghofio, dyma'ch cyfle i chi wneud yn iawn am hynny. Gallwch gwblhau'r ffurflen isod a'i dychwelyd i'n Trysorydd; neu yrru siec ato'n daladwy i "Cwm*ni*". Hefyd mae modd trosglwyddo'r arian i gyfrif y papur drwy ddefnyddio'r manylion bancio sydd ar y ffurflen hon.

Beth amdani?

Cwm*ni*

Gwarant Archeb Barhaol — *Standing Order Mandate*

I'r Rheolwr — *To the Manager*

............................................ Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/ Building Society*

Debydwch o fy nghyfrif £10.00 ar y 3ydd o fis Awst bob blwyddyn gan ddechrau ar y 3ydd o Awst 2022 neu nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit £10.00 from my account on the 3rd of August annually starting on the 3rd of August 2022 or until I advise you to the contrary.*

Yn daladwy i: — *Payable to:*

| Banc | Enw'r Cyfrif | Rhif Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| Barclays | Cwm*ni* | 20-98-68 | 13980030 |

Enw(au) ar y Cyfrif — *Name(s) on the Account*

Cod Didoli ___--___ -- ___ *Sort Code*

Rhif y Cyfrif
Account Number

Eich Cyfeiriad — *Your Address*

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Cod Post/*Post Code* .......................................  Rhif Ffôn/ *Phone Number* ............................

Llofnod/ *Signature:* ............................................  Dyddiad/*Date:*............................

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, i'r Trysorydd:

Please return to the Treasurer: Eyron Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed, CF82 8HP

NID I'R BANC/NOT TO THE BANK

**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/ Cwm*ni*

CYMRAEG

*Ariennir yn rhannnol gan **Lywodraeth Cymru***

# Cocos Penclawdd

Ar glawr rhifyn mis Mehefin y llynedd fe ddangoson ni lun oedd wedi ennill gwobr ffotograffiaeth ryngwladol fawreddog. Roedd y ffotograff o geffyl a gwartheg ger Castell Carreg Cennen gan ein ffotograffydd lleol. Cymro Cymraeg o Bontyberem yn wreiddiol yw Harri Williams ond sydd wedi bod yn byw yn ein mysg yma yn nhref Caerffili ers rhai  blynyddoedd.



Eleni cyrhaeddodd ffotograff arall o eiddo Harri restr fer yr un gystadleuaeth ryngwladol. Testun y llun llwyddiannus oedd casglwyr cocos Penclawdd wrth eu gwaith ym Mae Caerfyrddin. Yn ei ddull arferol treulioodd Harri ddiwrnod cyfan yn gweithio ar y llun fel y gwnaeth wrth dynnu'r un ger Carreg Cennen y llynedd.

Gwaith hynod beryglus yw hwn i wŷr Penrhyn Gŵyr a Bae Caerfyrddin gan fod llif yr afonydd yn creu cerrynt pwerus a chyflym. Daw'r llanw i mewn yn aml yn gyflymach na gall dyn redeg ac, o'r herwydd, collwyd llawer o fywydau yno ar hyd y blynyddoedd; boddwyd dau gasglwr profiadol yno yn ddiweddar.




Darlledwyd eitem fywiog am waith y casglwyr ac am sgiliau ffotograffig Harri ar 'Heno' S4C nos Fawrth, 10fed o Fai. Rhaglen oedd hon i hyrwyddo bwydydd Cymreig gyda chocos yn cymryd eu lle gyda bara lawr a chynhyrchion Cymreig eraill.

Mae nifer dda o'r casglwyr, fel y byddech yn disgwyl yn ardal Bae Caerfyrddin, yn siarad Cymraeg.

Dyma sylwadau Harri ar y lluniau.

"Aelodau teulu Selwyn o Selwyn's Seafoods o Benclawdd sydd yn y lluniau hyn yn casglu cocos ar fanciau tywod rhyw dair milltir allan o arfordir Llansteffan, lle mae'r afonydd Taf, Tywi a'r Gwendraeth yn cyrraedd y môr.




"Tynnais luniau sylfaenwr y fusnes, Selwyn Jones, yn ôl yn y 70au rhyw 50 mlynedd yn ôl ac mae tair cenhedlaeth o'r teulu bellach yn y fusnes ac wedi'u cynnwys yn y lluniau hyn. Rydw i wedi bod yn ffodus iawn o fod wedi cael tynnu llun pedair cenhedlaeth o'r un teulu o gasglwyr.

"Cesglir y cocos gyda'r dwylo  gan ddefnyddio dulliau sy'n dyddio yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid - gwaith caled sy'n boen i'r cefn.

"Yn dilyn ymlaen o lwyddiant y llynedd gyda Chastell Carreg Cennen â'r bridiau prin o wartheg yn Nyfarniadau Bwyd y Pink Lady, cystadleuaeth ffotograffiaeth fyd-eang, penderfynais edrych ar y posibilrwydd o ddal delweddau o dîm Selwyn ar gyfer fy ymgais ar gyfer cystadleuaeth eleni.

“Trefnais ddiwrnod cyfan gyda’r tîm, gan gofnodi’r amser gyrhaeddon nhw ar y banciau tywod gan ddilyn y llanw ar drai nes, yn y pen draw, eu bod yn llwytho’r cocos i mewn i’r cwch tra roedd y llanw’n rhuthro o’u cwmpas.

“Profiad annifyr oedd sefyll ar y banciau tywod mor bell o’r lan gyda sŵn y llanw’n dod i mewn yn rhuthro o’n cwmpas a gweld y sianel rhyngom yn llanw’n gyflym â dŵr!

“Gobeithiaf y gwnaiff y delweddau hyn roi mewn-welediad i’r gwaith caled ac ymroddiad sydd ei angen ar y casglwyr i ddod â’r mwythau hyn i’n byrddau.”







“Roeddwn wrth fy modd felly o glywed fod un o’r lluniau wedi cyrraedd y rhestr fer ac wedi derbyn cymeradwyaeth mewn cystadleuaeth a oedd wedi derbyn sawl mil o ymgeiswyr ar draws y glôb.

“Fel y llynedd cefais gyfle i hyrwyddo Cymru ar draws y byd gan fod sylw'r cyfryngau wedi cyrraedd allfeydd megis Newyddion Byd Eang y BBC, CNN (Yr Unol Daleithiau), Y Guardian, Y Times ac eraill led led y byd.




*Y cocos yn barod i’w bwyta!*

*Ar y clawr gwelwn aelodau o dîm Selwyn’s Seafoods yn casglu cocos o bysgodfa’r Tair Afon ar Fae Caerfyrddin. Rhoddwyd y llun hwn ar restr fer Dyfarniadau Ffotograffiaeth y Pink Lady yn 2022. Denodd y gystadleuaeth sawl mil o geisiadau o fannau o gwmpas y glôb ©Harry Williams Photography.*

# Hanes ar ein Ffonau Clyfar

Mae gwasanaeth diddorol a defnyddiol iawn ar gael nawr o'r enw 'History Points' ar gyfer haneswyr. Rhodri Clark, cyn-ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili, yw golygydd 'History Points', sef system wefan o deithiau cerdded led led Cymru, ac mae hyn yn cynnwys 46 safle ym Mwrdeistref Sirol Caerffili â'r mwyafrif o'r rheiny yng Nghwm Rhymni. Mae 'History Points' wedi creu codau QR ar gyfer nifer o gofebion rhyfel y cwm, er mwyn i bobl weld manylion y meirw yn hytrach na dim ond rhestr o enwau. Wrth ddarllen rhifyn mis Mai "Cwm*ni*", fe welwch yn yr erthygl ar dudalen 8 am Droed Rhiw'r Fuwch lun o gofeb rhyfel. Yna, i lawr tua'r cornel gwaelod ar y dde fe welwch y bathodyn QR.

Gellir dod o hyd i'r teithiau ar wefan 'History Points' drwy sganio'r codau QR y gellir dod o hyd iddynt ym mhob un o'r safleoedd. Er enghraifft, dyma hanes Tŷ Pwllypant:
https://historypoints.org/index.php?page=former-pwllypant-house-caerphilly

Erbyn hyn, mae sganiwr QR yn rhan safonol o'r pecyn meddalwedd ar ffonau clyfar. Yn aml, mae'r camera yn adnabod côd QR yn awtomatig. Wrth anelu camera eich ffôn clyfar tuag at y côd QR, peidiwch gwasgu cliced y camera ond, yn hytrach gwasgwch ar y côd neu'r ddelwedd sy'n ymddangos ar y sgrîn. Yna cliciwch ar y llinell felen neu ar frig y sgrîn.



Os nad oes gan eich ffôn clyfar y feddalwedd yn barod, gallwch ei lawrlwytho. Meddai Rhodri, "Y cwbl sydd angen arnoch ydi 'QR scanner', meddalwedd sydd ar gael am ddim o'r we neu'r "App store". Wedi i chi lawrlwytho a chlicio "Install", gallwch agor y sganiwr a dal y ddyfais i fyny at y côd QR. Fe allwch wedyn lawrlwytho'r dudalen we berthnasol ar y sgrîn."

Mae cyswllt rhwng yr 11 lleoliad o gwmpas tref Caerffili, yn ffurfio cylchdaith gyda straeon rhai o gymeriadau ac arferion y dref. Hyd yn hyn, dim ond un dudalen we sydd ar gael yn Gymraeg. Dengys honno lun o James Fussell yn defnyddio'r offer ar bont y castell:
https://historypoints.org/index.php?page=cymraeg-caerphilly-castle-remains

Mae Rhodri felly yn gofyn a fuasai rhai pobl leol yn dymuno cyfieithu tudalennau eraill? Byddai'n cydnabod y rhain ar wefan 'History Points'. (Mae'r Golygydd eisoes wedi gwirfoddoli!) Byddai hefyd yn ddiolchgar i "Cwm*ni*" ni am dynnu sylw at y teithiau cerdded.

Yn llun y codau QR ar y bont sy'n arwain at y castell, James Fussell sydd yn defnyddio ffôn clyfar i sganio'r codau QR er mwyn darllen hanes y castell. Mae codau QR ger ffenestr Peter Alan lle safai Tŷ Vaughan 'slawer dydd: https://historypoints.org/index.php?page=site-of-ty-vaughan-caerphilly

Ar ochr chwith y sgrîn fe welwch fwydlen yn rhestri adeiladau eraill yn y sir. Hefyd, yn ogystal â'r wybodaeth am hanes, cewch fap yn dangos lleoliad y gwrthrych. Trwy ddewis pennawd arall yn y bar du ar draws y top, gallwch wedyn ddewis Caerffili i weld ein tudalennau am nodweddion a lleoliadau perthnasol.

A dyma rhai o'r 46 lleoliad sydd ar gael yn Sir Caerffili, Safle Ysbyty'r Glowyr, Y Feddygfa Gyntaf, Castle Cinema, Cofebion Rhyfel hyd a lled y cwm, Melin Gelligroes, Boar's Head, Memo Trecelyn......

Un o'r tudalennau sy'n ennyn cryn dipyn o ddiddordeb ydi'r dudalen am y gofeb i'r rhai a fu farw mewn damwain argae yng Nghwmcarn: https://historypoints.org/index.php?page=cwmcarn-dam-disaster-memorial

Un arall ydi hanes y peilot 'Spitfire' o Ganada a laddwyd ar Fynydd Caerffili:
https://historypoints.org/index.php?page=canadian-spitfire-pilot-memorial-caerphilly

# Stori 'Gu (2)

*Dyma ail ran erthygl Megan Thomas am ymdrechion arwrol ei mam-gu, Mrs Eirlys Thomas, yn sefydlu Ysgol Gymraeg yng Ngilfach Fargod yn 1963.*

Roedd y canu'n gymorth i'r disgyblion yma'n arbennig. Cyfle iddynt arbrofi â sillafau wedi'u hymestyn fel



cynfas dros ffrâm bren, neu ynganiad sawl gair o fewn storm o nodau. Byddent hefyd yn aml yn yr un twll â llawer, os nad pob un o'r disgyblion, gyda neb yn deall hen eiriau crand fel "sancteiddir" a "beunyddiol", (dyma'r geiriau oedd yn aml yn cael eu cyfnewid o fewn y chwarae). Gallant gario tiwn yr un mor dda ag unrhyw blentyn arall, gyda'u hyder wrth ganu yn Gymraeg yn cynyddu'n llawer cynt na'u hyder siarad. Apeliodd diogelwch y gerddoriaeth i lawer ohonynt, roeddwn yn siŵr, ac felly dechreuais ofalu i beidio ag anghofio'r emynau dyddiol. "...am byth, amen."

38

Roeddwn ar wybod byddai gobaith cael athrawes arall pan fyddai tua 26 yn y dosbarth ond aros fu'n rhaid yn anesmwyth nes cyrraedd y rhif hudolus - 38. Erbyn hyn, trodd y lle o'i natur groesawgar a gweithgar i fod yn gyfyng. Ambell dro, teimlais yr awyrgylch lethol yn fy ngwanhau, yr ymdrech o geisio cadw diddordeb cymaint o blant mewn awyrgylch mor gaeëdig yn ormod. Roedd hi'n amhosib cadw'r plant i gyd o fewn yr un ystafell, gyda'r awyrgylch yn debycach i addysgu o fewn storfa fechan na dosbarth.

Sylweddolais fod twf y dosbarth hefyd yn cyfyngu'u haddysg o ran eu hoedran - y bylchau'n dechrau achosi craciau, ac roeddwn yn awyddus i ddatrys y sefyllfa cyn i'r craciau droi'n hafnau. Dechreuais sylwi ar ambell blentyn yn troi'u sylw at ddarlunio lluniau bychan ar ben eu tudalennau, neu'n gadael i'w llygaid ddawnsio ar draws patrymau'r golau ar y wal. Yn amlwg, doedd syml a sylfaenol bellach ddim yn ddigon iddynt. Ac un bore, wrth gyfri'r nifer o enwau ar y gofrestr, gwyddwn fod haul ar fryn.




Cantores adnabyddus o ardal Abertawe oedd hi, newydd symud i'r ardal gyda'i gŵr newydd. Er yn ddieithryn imi ar y pryd, daeth i'r ysgol y bore hwnnw â gwên heintus ar ei hwyneb, megis bardd â chân newydd yn cyrraedd llys hen frenin. Rhythodd pob disgybl arni wrth iddi gerdded i'r ystafell fechan, wrth i bob plentyn sefyll fel milwr wrth eu desgiau, yn ôl yr arfer. Digwyddiad pur anghyffredin oedd derbyn ymwelwyr i ni, gydag athrawon Saesnig yr ysgol yn anaml yn edrych i mewn arnom ni, er eu cyfeillgarwch secreteraidd. Yn ansicr sut i ymateb, cefais ambell gipolwg betrus gan rai o'r disgyblion wrth iddynt edrych ataf i am arweiniad. Gan nodi ymateb y disgyblion, croesawais yr athrawes newydd i'r dosbarth, gan adael iddi arwain disgyblion iau'r dosbarth gyda'i llais fel piben hud tuag at ystafell wag amhersonol, gyda'r plant yn ei dilyn yn ufudd. Gwingodd y disgyblion oedd yn weddill yn eu seddi, yn teimlo'n fregus wrth i'r fenyw anghyfarwydd haneri eu nifer yn anymddiheurol. Ymddangosai'n debyg i aderyn ysglyfaethus yn llygaid y plant, yn plymio a phlycio'r diniwed o'r teulu clos a fodolodd tan heddiw. Teimlais haen o euogrwydd yn llifo dros fy nghalon wrth weld eu hwynebau bychan yn edrych arnaf, eu llygaid yn llydan gyda'm bradychiad.

96

Â’r misoedd yn eu blaen, a chyn pen dim roedd y plant wedi hen gyfarwyddo â’r system newydd. Ers y bore hwnnw, roedd bellach bum oedolyn, cynorthwywyr ac athrawon, wedi ymuno â’r Stafell Gymraeg. A dweud y gwir, nid un ystafell yn unig oedd gennym erbyn hyn, ond sawl un, fel gwreiddiau chwilfrydig yn chwyrlïo’n chwareus ar hyd y coridor. Roeddwn yn andros o falch o’r datblygiad yma - roeddwn i’n hoff iawn o bigo ’mhen allan o’r ystafell ddechreuol a chipio lawr y coridor, gan glywed hanerion brawddegau Cymraeg y dosbarthiadau eraill yn atsain megis glaw newydd yn dilyn sychder.

Tua’r adeg yma, bu tân mewn ysgol gerllaw ym Mhontlotyn, a phenderfynwyd yn ddi-ofyn taw ein hystafelloedd ni oedd y lle gorau i blant Pontlotyn i fod. Rhaid ini adael, felly. Tynnais bob darn o waith yn ofalus oddi ar y waliau yn olaf, yn ceisio gohirio’r dasg gan dynnu pob un llyfryn, offeryn dysgedig, pensilyn a phapur o’r lle - gwrthrychau defnyddiol oeddent bellach, wedi trosglwyddo’u pwysigrwydd sentimental i’r cynnyrch a grewyd wrth eu defnyddio. Llusgais fy mys yn deyrngar dros gwysi ysgrifen disgybl, yn teimlo ffurfiad pob llythyren yn troi’n fwy eglur gyda phob gair. Wedi’u sticio â phiniau bychan ar draws y gwacter oedd geiriau ysgrifenedig cyntaf llawer o ddisgyblion - cofiaf yn glir wynebau clên, gydag ambell ddeigryn, yr ymdrech yn amlwg wrth iddynt gyflwyno’r gwaith yn betrus imi. Yn aml, adlewyrchaf wynebau’r plant gyda’m pelydryn personol o falchder wrth gymryd y gwaith anhrefnus, anhaclus, sigledig, ond eto mor addawol ar y wal blaen, ddi-emosiwn.



Er fy nhristwch personol i dros adael yr ystafelloedd cyfarwydd, cartrefol, clyd, lle ddechreuodd addysg Gymraeg ffurfiol cyntaf cynifer o blant, gwyddwn taw dwyn amser gwaharddedig yr oeddwn. Bu rhan ohonof yn wyliadwrus ers sbel, yn gwybod y byddai rhywbeth yn dod i ben wrth i’r un ystafell fechan dyfu’n debycach i ysgol annibynnol. Ond cyn yr adeg yma, byddwn yn ceisio anwybyddu’r trafferthion oedd ar y gorwel - roedd awyrgylch o ddiogelwch yn perthyn i’n sefyllfa wrth i ni gysgodi o dan adain ysgol arall. Ond felly, dyna ni’n codi ein pac a mynd i rywle arall ar fyrder, gan adael yr hen atgofion yno i fudlosgi ym meddyliau’r disgyblion Saesneg. Trwy lwc, roedd dosbarthiadau gwag ar gael mewn ysgol leol yng Ngilfach - cynfasau clir newydd lle gallwn greu darlun gwbl unigryw. Pasiodd rhai dyddiau hir yn dilyn y symud mawr i’r adeilad anghyfarwydd wrth i ni i gyd ymdrechu i adfer ein rhythm coll. Yng nghanol yr annibendod, blaenoriaethais gerfio twll bach i’m disgyblion annwyl unwaith eto yn yr adeilad newydd hwn. Tyfodd dealltwriaeth taw ein hysgol ni oedd hon, ein lle ni. Er fy hiraeth cychwynnol dros adael ein hen gartref yn gragen ar ein hôl, sylweddolais i - a’r disgyblion yn eu tro - bŵer y rhyddid a oedd gennym yn awr. Roeddem yn ddigon hyderus i sefyll ar ein traed ein hun, i ddechrau datblygu heb gyfyngiadau. Roedd y tân bellach yn dechrau tywynnu unwaith eto.

240

Dyna’r nifer, wedi un mlynedd ar hugain ers yr ystafell wag honno yn 1963. Myfyriais yn glên ar y nifer o wersi straffaglus, gwasanaethau persain, egwylion gwlyb, croesawu a ffarwelio dros y blynyddoedd wrth imi ollwng i’m cadair freichiau wrth y tân a phaned yn fy llaw. Newydd ymddeol - penderfynais adael i wreiddiau newydd ymestyn a ffynnu dan arweiniad y genhedlaeth nesaf wrth i’r ysgol dyfu a thyfu gyda threigl y blynyddoedd. Rhythais i galon y tân, y fflamau’n dawnsio’n egnïol dros yr hen lo, gan wenu’n dawel.

*Ni ddylid copïo neu atgynhyrchu’r erthygl hon, neu rannau ohoni, heb ganiatâd yr awdur, Megan Thomas*

# Cofio Pentref Coll Pen y Banc





Fore Mercher, yr 11eg o Fai daeth criw o ddisgyblion Ysgol Fochriw i lawr i Ganolfan Cwm Darran i gyflwyno hanes y pentref coll, Pen y Banc. Gosodwyd arddangosfa o luniau hanesyddol am y pentref coll yn y Ganolfan ynghyd â gwaith y plant. Dadorchuddiwyd y plac gan Gadeirydd Cyngor Cwm Darran, y Cynghorydd Robert Chapman, a rhanodd rhai o gyn-drigolion Pen y Banc eu hatgofion am eu cartrefi coll. Yn ogystal â lluniau, mae gwaith plant ysgolion yr ardal a dwy ffeil, y naill yn cynnwys toriadau o bapurau newydd yn ymwneud â'r pentre a'r llall yn llawn canlyniadau cyfrifiad.

Lleolwyd pentref Pen y Banc ger y rheilffordd a redai o'r Deri i Fochriw, er na chafodd trigolion Pen y Banc y fantais o orsaf eu hunain. I ddechrau, ysbyty ar wahan *(isolation)* oedd yno, a thyfodd y pentref o gwmpas yr ysbyty pan agorwyd y gwaith glo. Yn nes ymlaen addaswyd adeilad yr ysbyty ar gyfer nifer o dai annedd. Yr anheddau cyntaf oedd yr adeiladau pren a adwaenid yn Hut Row ond datblygwyd tai mwy sylweddol wedyn. Deallwn fod yno Chapel Row neu Terrace a Stoney Houses. Gwyddwn hefyd fod ysgol wedi bod yno rhwng 1879 a 1963. Roedd tua 25 o dai ym Mhen y Banc i gyd a chymaint â chant a hanner o drigolion ar un adeg - digon i gynnal tafarn *a* chapel Siloh.

Tyfodd pentrefi Cwm Darran, Deri, Fochriw, Pentwyn a Phen y Banc wrth i bobl symud i'r ardal i gael gwaith yn y pyllau oedd yn cael eu suddo i ddiwallu'r galw am lo ar gyfer y gweithfeydd haearn yn Rhymni. Lefelau oedd y rhain yn y lle cyntaf ond yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygodd y diwydiant glo, a dechreuwyd suddo pyllau dwfn Darran (1868-1919), Groesfaen (1903-1968) ac Ogilvie (1864-1975).

Cred rhai fod nam daearegol yn yr ardal ac, wrth gwrs, dydy Pen y Banc ddim yn bell iawn o bentref diflanedig Troedrhiw'r Fuwch. Dywedir fod cysylltiad daearegol rhwng Troed-y-rhiw ym Merthyr, Troedrhiw'r Fuwch yng Nghwm Rhymni a Throedrhiw– Gwair yng Nghwm Sirhywi a gallai fod yr un nam daearegol wedi effeithio ar y tair cymuned. Ond does dim sôn am hyn yn Troed-y-rhiw a llwyddwyd i achub rhan o Droedrhiw- gwair. Beth bynnag am hynny, dywedir fod trigolion Pen y Banc wedi dianc rhag *"tremor"* yn 1964. Dywedwyd fod hyn wedi achosi i nenfydau a waliau hollti. Y rheswm mwya tebygol efallai oedd ffrwydriad yn un o'r pyllau glo. Ond beth bynnag y rheswm gadawodd y teuluoedd eu cartrefi a dyna fu diwedd y pentre.



Penybanc

In the bright light of day
An abandoned school stood in pieces in the middle of Fochriw and Deri.
There used to be laughter but now no more
No sign of buildings, only signs of destruction.
Sounds of children playing in the street now no more
It was a morning they will never forget.
There was a rumble in the ground, demolished buildings.
The rows of houses
Now no more.

Bu Cymdeithas Hanes Leol Deri yn weithgar yn yr ardal am rai blynyddoedd bellach, gan greu cysylltiadau da gydag ysgolion cynradd y cylch. Y gymdeithas hon fu'n gyfrifol am sefydlu cofeb i fechgyn lleol a laddwyd mewn rhyfeloedd ynghyd â gosod placiau yn dangos lle bu'r amrywiol lofeydd. Yn 2009 buont yn cofio' r 27 o weithwyr a laddwyd mewn damwain yng nglofa'r Darran yn 1909. Hefyd, cofio'r gwŷr a geisiodd achub y rhai a laddwyd ac a gafpodd eu hanrhydeddu gyda'r George Medal ac anrhydeddau eraill.

# Troedrhiw'r Fuwch (2)

## Broc môr capel



Lle bu Swyddfa'r Post

Pan mae pentre yn diflannu, fel y gwnaeth Pen y Banc a Throedrhiw'r Fuwch, mae cymuned yn cael ei chwalu hefyd. Mae cartrefi'n cael eu distrywio, ac yna, wrth i'r trigolion symud tŷ, mae cysylltiadau teuluol a chymdeithasol yn cael eu hymestyn ac yn aml eu torri. Bydd y trigolion yn mynd â'u hatgofion gyda nhw i'w cymunedau newydd, ond gyda threigl amser, caiff yr atgofion hynny eu herydu. Erbyn heddiw dim ond ychydig sydd i'w ganfod o adeiladau'r pentrefi diflanedig, ac mae'r dystiolaeth i hanes y pentrefi wedi ei wasgaru yma ac acw fel broc môr ar wyneb y dŵr ar ôl i long suddo.

Dyma ran o broses hanes, wrth gwrs. Mae gwasgaru a distrywio tystiolaeth yn her i haneswyr ac archaeolegwyr wrth iddynt geisio casglu gwybodaeth am bob agwedd ar y gorffennol.Ond mae rhywbeth arbennig o drist yn y ffaith bod Pen y Banc a Throedrhiw'r Fuwch wedi diflannu mor ddiweddar, a bod cyn lleied o dystiolaeth i'w bodolaeth bellach.



Lle safai'r pentref 'slawer dydd

A gall hanes cymunedau fel Troedrhiw'r Fuwch a Phen y Banc ein hatgoffa ni, Gymry Cymraeg yr ardal hon, am y ffordd y mae hanes cymunedau Cymraeg eu hiaith wedi diflannu. Pwy sy'n cofio bellach am yr Eisteddfodau lu fu'r rhan mor bwysig o fywyd y cymoedd? Am hanesion a rhigymau teuluoedd? Am chwaraeon plant ac arferion tymhorol? Am y cymdeithasau cyfeillgar fu'n cynnal y teuluoedd – ac, yn fwy na dim efallai, am y capeli Cymraeg eu hiaith oedd yn ganolfannau bywyd trigolion ein Cwm Ni am ddwy ganrif o leiaf. Mae'r gymdeithas o'n cwmpas wedi hen Seisnigeiddio, mae'r capeli wedi eu cau, ac er bod – diolch byth – to newydd o Gymry yn yr ardal hon, mae'r gadwyn o atgofion ac arferion sy'n ein cysylltu wrth ein hanes wedi ei thorri.

Daeth hyn i gyd yn arbennig o fyw i fi pan ges i gais i helpu'r rhai sy'n ceisio darganfod hanes Troedrhiw'r – Fuwch. Roedd capel ac eglwys yn y pentre, ond roedd un gwahaniaeth sylfaenol rhyngddynt. Cymraeg oedd iaith swyddogol y capel, a'r cyfeillion sydd am gasglu ei hanes heb gael cyfle i ddysgu'r iaith. Roedd un yn cofio dysgu geiriau'r Pader wrth lin hen ewythr iddi, ond roedd union ystyr y geiriau'n ddirgelwch iddi. Nid oedd neb yn eu cylch yn siarad Cymraeg.

Daeth y chwilwyr o hyd i rywfaint o wybodaeth am hanes y capel mewn llyfrau hanes lleol. Dysgent fwy am eu hanes cynnar mewn ysgrif a gyflwynwyd i Eisteddfod Troedrhiw'r Fuwch yn 1874 – am fod honno yn Saesneg. Ni ddylwn ramanteiddio Cymreictod ein bro, na beio'r "Welsh Not" yn unig am Seisnigrwydd cynyddol Cymru dros y ganrif ddiwethaf! Roedd gan y rhai oedd yn dewis cyfathrebu yn Saesneg ran fawr i chwarae yn y broses honno.




Ond o ran hanes y capel ei hun – sut oedd mynd ati i'w ddarganfod? Roedd ambell i eitem wedi ei drysori gan hen aelod – fel y cwpan a soser yma – ond broc môr ydynt. Ble mae enwau'r aelodau a'r gweinidogion? Hanesion am y cymeriadau blaengar? Gweithgareddau'r capel? Roedd pob dogfen a chofnod wedi diflannu, a phetai modd eu darganfod, fe fyddant mewn iaith annealladwy i'r ymchwilwyr. Cewch wybod sut y llwyddwyd i ddatrys y dirgelwch yn y rhifyn nesaf!

# Newyddion Ysgol Bro Sannan






**Taith Breswyl - Bae Caerdydd**

Ar ôl dwy flynedd heriol, roedd yn bleser mynd â'n disgyblion ar deithiau preswyl unwaith eto.

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Ganolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd ym mis Mai. Braf oedd gweld y disgyblion i gyd yn cymdeithasu yn yr iaith Gymraeg ac yn mwynhau'r gweithgareddau arbennig. Uchafbwynt y penwythnos oedd y Cwch Cyflym o gwmpas y Bae gyda golygfeydd anhygoel o Gaerdydd, tra oedd y disgyblion yn sgrechian nerth eu pennau – joio mas draw!

Roedd Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod hefyd yn bresennol, a braf oedd gweld y disgyblion yn cryfhau perthnasau ym mlwyddyn 6, cyn pontio i Gwm Rhymni. Braint oedd mynd a'r disgyblion yma ar daith breswyl yn dilyn yr holl gyfnodau clo dros y ddwy flynedd diwethaf; roedd ymddygiad a Chymreictod pob un yn wych.



**Cystadleuaeth Y Dreigiau – Stadiwm y Principality**

Yn ystod y flwyddyn hon mae disgyblion Bro Sannan wedi bod yn ymarfer yn wythnosol gyda hyfforddwyr arbennig Y Dreigiau. Mae sgiliau'r disgyblion wedi datblygu'n dda yn ystod y sesiynau a chafwyd cyfle ardderchog i ymarfer y rhain yn ystod cystadleuaeth rygbi tag ar un o safleoedd rygbi enwocaf y byd, sef Stadiwm y Principality, Caerdydd.

Atgofion bythgofiadwy i ddisgyblion Bro Sannan ar ôl chwarae ar yr un cae a'u harwyr. Yn ogystal â hynny, roedd perfformiad y garfan yn gaboledig gyda llawer iawn o geisiadau wedi eu sgorio.

## Canlyniad Adolygiad Gan ESTYN

Bu Ysgol Bro Sannan mewn categori Gwelliant Sylweddol yn dilyn arolwg craidd nol yn 2019. Daeth ESTYN am ailymweliad ar ddiwedd mis Mawrth a bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd gwych mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi tynnu’r ysgol o’r rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt. Mae hwn yn newyddion arbennig o dda a rhywbeth dylai’r staff a chymuned yr

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty’s Inspectorate for Education and Training in Wales



### Diwrnod Seren a Sbarc

Erbyn hyn mae Sbarc a Seren yn rhan annatod o’n gwaith dyddiol ym Mro Sannan a braf oedd dathlu Diwrnod Seren a Sbarc ar yr ugeinfed o Fai.

Roedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi gwisgo fel Sbarc a Seren a disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi gwisgo fel eu harwyr o Gymru.

Mae’r ysgol yn gweithio’n galed ar hyn o bryd i ennill gwobr aur Siarter Iaith. Mae diwrnodau fel hyn yn dystiolaeth dda ein bod ni wrth ein boddau yn dathlu’r iaith Gymraeg.

## Diwrnod y Llyfr Bro Sannan

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr yn hwyrach ym Mro Sannan eleni o ganlyniad i arolygiad gan ESTYN ym mis Mawrth. Roedd gwisgoedd y disgyblion eleni yn wych gyda phob un disgybl wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr.

Yn ogystal â hynny, daeth yr ysgol at ei gilydd am y tro cyntaf ers dwy flynedd er mwyn cyflawni gorymdaith dosbarth i ddathlu'r holl wisgoedd arbennig. Roedd naws y gwasanaeth yn hyfryd gyda’r pennaeth, Mr Hallett, yn darllen pennod o Foddion Rhyfeddol George gan Roald Dahl wedi gwisgo fel Nain o’r llyfr.

Yn ystod y dydd roedd llawer iawn o weithgareddau hwylus wedi eu trefnu i’r disgyblion, megis creu cloriau newydd i'w hoff lyfrau, gemau a chwis, gwaith ymchwil, chwarae rôl a sgriptio ei hoff lyfrau. Cafodd llawer iawn o fedrau llythrennedd y disgyblion eu cymhwyso yn ystod diwrnod llawn hwyl a sbri.







# Ymweliad - Tŷ Bedwellte

Os digwydd i chi grwydro lan Cwm Sirhywi ar fore teg, fe ddaw adlais y gorffennol i'ch cwrdd. Cwm sydd erbyn hyn yn llawn o wyrddni gyda defaid yn pori'n braf ar y llethrau. Gellwch glywed tincian yr afon wrth iddi lifo drwy'r cwm gan adlewyrchu cysgodion y cymylau uwch eich pennau. Dyna sut oedd hi pan yrrodd criw ohonom lan i dre Tredegar yn ddiweddar.

Dyma dref a gafodd ei chynllunio yn hytrach nag ymddangos fan hyn, fan draw, a hynny dros 220 mlynedd yn ôl. Dyma un o ganolfannau cynnar pwysicaf y chwyldro diwydiannol.

Wrth barcio ein ceir, mawr oedd ein hedmygedd o gloc eiconig Tredegar. Dyma gloc a oedd yn sefyll 60 troedfedd uwch ein pennau fel tŵr anferthol yn cadw llygad barcud ar y dre a'r gymuned. Wrth inni gerdded draw tuag at glwydi haearn Tŷ Bedwellte, roedd hi'n hawdd i ni ddychmygu tlodi a chyfoeth y cyfnod.

Daw enwau Samuel Homfray a Richard Powell Davies a'i wraig, Mary Bramwell, i'r cof. Homfray gyflogodd Trevithick, gan ofyn iddo adeiladu'r trên stêm cyntaf ar reilffordd, a hynny er mwyn ennill bet am o gwmpas £1000, a hynny yn erbyn Meistr Gwaith arall, sef yr enwog Richard Crawshay. Symudodd Homfray i Dŷ Bedwellte yn 1813 yn dilyn ei gyfnod yn Rheolwr ar Weithfeydd Penydarren. Y llawfeddyg lleol, Mr Monkhouse, oedd y preswylydd o'i flaen - digon o gyflog i'w gael wrth drin y cleifion mae'n rhaid!



Y Rheolwr Gwaith cyntaf i fyw yna oedd Richard Powell Davies. Ei wraig gyfoethog, Mary Bramwell, gychwynnodd y prosiect o adeiladu'r cloc  Yn anffodus, bu iddi farw cyn i'r cloc daro deuddeg am y tro cyntaf.

Dechreuwyd adeiladu Tŷ Bedwellte ar safle "Coedcae Y Cynghordy" ac, yn wreiddiol, ffermdy oedd ei swyddogaeth. Ond buan iawn datblygwyd y safle. Ychwanegwyd dwy adain i'r adeilad gwreiddiol ac fe ddaeth yn blasty Fictorianaidd hardd erbyn 1825. Y mae'r Plasty gyda'i ystafelloedd crand a thoi uchel yn nodweddiadol o dai bonedd y cyfnod. Erbyn hyn y mae'r "Orchid House" wedi ei droi yn ystafell fwyta a nid nepell o'r tŷ ceir "Ty Isa", adeilad a oedd unwaith mor oer fel y'i defnyddiwyd fel oergell. Roedd coridorau tanddaearol yn arwain o'r tŷ i'r oergell!

Hawdd dychmygu'r bonedd yn cyrraedd y drysau cadarn y tu allan yn eu coetsis moethus. Fan hyn oedd canolfan cymdeithasu'r cyfoethog. Mae'n siŵr y byddent yn ystumio'n barchus wrth grwydro'r gerddi ar hyd y llwybrau serth igam-ogam, gan sylwi ar y llynnoedd bach, y rhaeadrau, y blodau hardd a'r coed urddasol. Ceir hanes am geirw ar y safle a chwarae croquet ar y lawnt. Hyn pan oedd tlodi enbyd yn y gymdogaeth.

***Trosodd***

# Ymweliad - Tŷ Bedwellte (parhad)



Trawsnewidiwyd y safle sawl gwaith dros gyfnod amser ond safai'r safle yn gadarn gydag amlddefnydd o'r plasty. Defnyddiwyd y tŷ yn siambr i'r cyngor ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a bu'r tŷ yn llwyfan i lwyddiant Aneurin Bevan. Dyma'r arwr a etholwyd fel Aelod Seneddol yn 1929 ac aeth ymlaen i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol yn 1948. Yn fwy diweddar defnyddiwyd y tŷ at waith dosbarthu bwyd yn ystod cyfnod streic y glowyr.

Heddiw, yn ôl pob sôn y mae adfywiad eto ym Mharc a Thŷ Bedwellte. Gwariwyd arian mawr wrth atgyfodi'r safle yn 2009. Bellach, braf yw deall fod grwpiau lleol yn gwneud defnydd cyson o'r adeilad a'r parc. Cynhelir cyfarfodydd cyson a chyngherddau yn yr awyr agored yno.

Dim ysblander a chyfoeth y bonedd ond brwdfrydedd a gwaith pobl Tredegar a'r cylch sydd bellach yn berchen ar y safle. Creuwyd gardd synhwyrau ar y safle a diolch i gwmni rhosynnod David Austin am gyfrannu rhosynnod "Aneurin Bevan" ar gyfer y safle.

Diolch amdano a diolch i "Bwyty'r Tegeirian" am ein diwallu'n ardderchog mewn awyrgylch mor hamddenol. Braf oedd cwrdd eto a sgwrsio dros ddisgled a phrydyn bach. Edrychwn ymlaen at ail-ymweld yn fuan iawn.

*Dilys Williams*

# Y garddwyr wrth eu gwaith yn Siloh



Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn galed iawn ar bob agwedd o fywyd cymdeithasol ac ar ein capeli yn enwedig. Trist oedd gweld capel Brynseion yn gorfod cau y llynedd, ac mae drysau caeëdig Canolfan Siloh a golwg anniben y gerddi o'i chwmpas wedi tystio i effeithiau'r cyfnod clo. Mae'r ganolfan yng nghanol pentref Ystrad Mynach, yn agos at y siopau, yr orsaf fysiau a'r feddygfa, a bu'r dirywiad yn ei chyflwr yn amlwg iawn i bawb.



Braf iawn felly yw gweld bywyd cymdeithasol yn dechrau adfywio yn ystod y gwanwyn hwn. Mae cymdeithasau'n dechrau ail-gyfarfod, mae drysau'r capeli, y llyfrgelloedd a'r canolfannau hamdden yn dechrau agor eto, ac mae patrymau bywyd normal yn dechrau ail-ffurfio.

Arwydd o'r newid hwn, ac o ddyfodiad y gwanwyn hefyd, oedd y criw o wirfoddolwyr fu wrthi un bore Sadwrn ar ddiwedd Ebrill yn clirio'r chwyn a'r sbwriel o gwmpas Siloh. Roedd angen sawl sach gwyrdd arnynt ac o leiaf un siwrnai i'r ganolfan ailgylchu. Ond mae pleser neilltuol mewn gosod trefn ar ardd yn y gwanwyn, ac yn arbennig rhoi gofal dyledus i'r planhigion sydd wedi goroesi'r gaeafau ac esgeulustod y cyfnodau clo.

Pleser ychwanegol oedd gweld ymateb gwerthfawrogol y bobl oedd yn mynd heibio ac yn dymuno'n dda i ni wrth ein gwaith. Roedd rhai ohonynt yn awyddus i'n helpu hefyd. Fe fydd angen garddwyr brwd ar ein cymuned eleni: bydd Cyngor Cymunedol Gelligaer yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth *Cymru yn ei Blodau*! Bydd gweld mwy o flodau ymhobman yr haf hwn yn siŵr o godi'n calonnau ni i gyd, ac yn gyfle i gryfhau rhwydweithiau cymdeithas gyda thyfiant yr haf.


Mehefin
June
11
12:00 - 19:00
Caeau Owain Glyndwr
Caerffili
Owain Glyndwr Fields
Caerphilly
CERDDORIAETH FYW
DAWNSIO GWERIN
CHWARAEON
TIPI I BLANT
STONDINAU
BWYD A DIOD
A MWY
LIVE MUSIC
FOLK DANCING
SPORTS
CHILDREN'S TIPI
STALLS
FOOD AND DRINK
AND MORE
HUFEN IA · ICE CREAM
2022
Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival
Menter Iaith
Sir Caerffili
Digwyddiad AM DDIM
FREE Event
mentercaerffili.cymru
BRECON CARREG
H4A
mudiad meithrin
Cadw
CYMRAEG
I Blant For Kids
CAERPHILLY
CAERFFILI
CASTLE COURT
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Chwaraeon
MENTRAU IAITH

# Ffiliffest 2022

## AMSERLEN / TIMETABLE

### Llwyfan / Stage

- 12:00 - *Dawnsio Drwy'r Cwm gyda Allan yn y fan*
- 13:00 - *Martyn Geraint*
- 13:30 - *Ysgolion y Sir*
- 14:00 - *TeiFi*
- 14:35 - *Paid Gofyn*
- 15:30 - *Iestyn Gwyn Jones a'r Band*
- 16:15 - *Plu*
- 17:00 - *Catrin Herbert*
- 17:30 - *Eadyth*
- 18:15 - *Candelas*

### Tipi / Teepee

- 12:30 - *Stori i blant Meithrin*
- 13:30 - *Sgwrs gyda Elin Jones awdur 'Hanes yn y Tir'*
- 14:30 - *Sioe Dic Penderyn gan gwmni Mewn Cymeriad*
- 15:30 -f *Fitwrydd teulu gyda Winning with a Y*
- 16:30 - *Sgwrs gyda Branwen Davies am ei dramau a byd Theatr Y Sherman*



# Colofn y Dysgwyr

Helo bawb! Y mis yma dyn ni'n mynd i ddarllen cerdd arall gan T Llew Jones, Traeth y Pigyn. Mae'r bardd yn treio perswadio ffrind i fynd gyda fe i lan y môr. Mae e'n disgrifio'r holl bethau gwych maen nhw'n gallu gwneud ar y traeth ond y peth pwysicaf yn y gerdd yw'r apêl yn y geiriau:

Ddoi di gen i?   Ddoi di ddim?

Gwn y doi!

Does dim traeth yng Nghymru o'r enw Traeth y Pigyn, mae'n draeth dychmygol. Ond mae llawer o bobl yn dweud mai hoff draeth T Llew Jones oedd traeth Llangrannog ac efallai ei fod yn meddwl am y traeth yma. Mae'r haf ar ei ffordd ac mae'n amser meddwl am fynd i lan y môr. Beth yw eich hoff draeth chi?

## Traeth y Pigyn

Ddoi di gen i i Draeth y Pigyn
Lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn?
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

Ddoi di i godi castell tywod
A rhoi cregyn am ei waelod?
Ddoi di gen i? Ddoi di -
Ddoi di ddim?

Fe gawn yno wylio'r llongau
A chawn redeg ras â'r tonnau,
Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

O mae'n braf ar Draeth y Pigyn
Lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn,
Pan fo'r awel yn y creigiau,
Pan fo'r haul ar las y tonnau.

Tyrd gen i i Draeth y Pigyn,
Fe gawn wyliau hapus wedyn.
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Gwn y doi!



*perswadio : persuade* *i lan y mor : to the seaside* *apêl : appeal* *geiriau : words*
*dychmygol : imaginary* *ar ei ffordd : on its way* *yn bwrw'i ewyn : casting its foam* *cregyn : shells*
*gwaelod : base* *tonnau : waves* *awel : breeze* *creigiau : rocks* *tyrd : come*
*Ddoi di gen i? : Will you come with me?* *Ddoi di ddim? : Won't you come?* *Gwn y doi! : I know you'll come!*

*Ann Lewis*

# Arbrofi gydag Amser

Efallai bod rhai ohonoch yn meddwl bod erwau o dir gen i tu ôl i'r tŷ. Ond na, dim ond darn bach o bridd sydd gen i – 9 metr sgwâr – ac mae rhyw 20% o hwnnw wedi ei golli i ddwy goeden camelia fawr fu'n dwts bach mewn un potyn ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.



Wedi eu trawsblannu i gornel o'r ardd pan symudais i yma yn 2008, mae'r camelias wedi elwa ar y pridd dan eu traed a thyfu'n gewri. Er i fi fynd ati i'w tocio bob blwyddyn, maen nhw - a'u cysgod - yn dominyddu'r cornel hwnnw o'r ardd. Felly dyna gartre'r bin compost, a hefyd y planhigion sy'n hoffi cysgod, megis y briallu, lili'r dyffryn a'r eirlysiau.

Ar ben hynny, mae gelyn gyda fi yn y rhan honno o'r ardd. Cefais wreiddyn o *Japanese anemone* yn anrheg gan ffrind ryw bum mlynedd yn ôl, ac erbyn hyn mae'n rhyfel agored rhyngof â lluoedd Siapan, sy'n ceisio goresgyn yr ardd i gyd. Rhwng popeth mae'n rhyfedd 'mod i'n llwyddo i dyfu unrhywbeth i'w fwyta!

Ond dyna yw fy niléit yn yr ardd: tyfu digon o lysiau fel bod modd cael rhywbeth o'r ardd i'w fwyta bob dydd o'r flwyddyn. Fel y gwyddoch, mae'r cêl wedi cwrdd â'r gofyn dros fisoedd y gaeaf. Er bod hwnnw wedi cilio i'r rhewgell erbyn hyn, mae digonedd o *Swiss chard* gen i o hyd, ac mae hwnnw'n iawn mewn salad neu frechdan, neu fel llysieuyn gwyrdd gyda phryd twym.

Mae'r darn hwn o bridd yn diwallu fy anghenion, oherwydd nid oes angen i fi fwydo teulu, wedi'r cyfan. Oherwydd hynny, gwell gen i brynu planhigion na hau hadau llysiau. Mae dwsin o blanhigion ffa yn ddigon i fi, ynghyd â rhyw ugain o winwns a betys coch a chennin.

Ond mae angen hau rhai hadau megis bresych, *chard* a'u tebyg, oherwydd mae'r planhigion bach mor flasus mewn salad a brechdan. Ond y broblem wedyn yw'r hadau sydd dros ben. Am faint mae hi'n werth eu cadw? Rwy'n tyfu blodau hefyd yn y potiau wrth gefn y tŷ, a'r un yw'r broblem: yr hadau sydd dros ben.





Sylweddolais eleni 'mod i wedi gadael i bacedi o hadau grynhoi dros y blynyddoedd – rhai wedi eu hagor, rhai heb eu cyffwrdd. Rwy wedi penderfynu gwneud arbrawf. Byddaf yn rhoi cynnig ar blannu'r cyfan lot, a gweld beth sydd yn digwydd iddyn nhw. Dechreuais yr arbrawf ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r hen bacedi o bys pêr oedd gen i ers dwy flynedd, ac erbyn hyn mae rhai ohonyn nhw wedi egino, wedi eu plannu allan ac yn edrych yn addawol iawn. Rhai yn unig, cofiwch, ond mae'r pys pêr yn aml yn methu.

Mae hadau blodau'r haul fu gen i ers blynyddoedd hefyd wedi egino - rhai ohonynt eto - ac yn dechrau magu'r ail a'r drydedd ddeilen. Roedd methiant yma yn awgrymu'n wir fod treigl amser yn effeithio ar yr hadau, oherwydd mae blodau'r haul yn hawdd iawn i'w tyfu fel rheol.

Serch hynny rwy'n mynd i barhau gyda'r arbrawf. Mae digon o ddefnydd gen i, fel y gwelwch! Cewch wybod y canlyniadau. Ond beth bynnag fydd pendraw'r arbrawf, mae'n well gen i feddwl am hedyn yn cael ei siawns i flodeuo, i gael ei awr yn yr heulwen a'r glaw, na sychu'n ddim mewn pecyn papur mewn cwpwrdd tywyll...

# Colofn Dafydd Islwyn



Yn y Rhymney Valley Express, 23ain o Ionawr 1998, cafwyd dan newyddion Tredegar Newydd eitem dan y pennawd, “ Ymweliad Awdur”.

“Faint o ddarllenwyr a welodd, a mwynhau mae’n siŵr, y ffilm ‘Only Two Can Play’ nos Sadwrn diwethaf? Yn actio oedd Peter Sellers, Kenneth Griffiths, Richard Attenborough a Mai Zettering. Stori am lyfrgellydd rhwystredig a’i anturiaethau gyda merched yw’r ffilm.... Seiliwyd hi ar y nofel ‘That Uncertain Feeling’ gan Kingsley Amis.... Roedd ef yn gyfaill i David (Laurie) Sims, 1 School Street.”

Ganwyd y nofelydd yn ne Llundain yn 1922 a magwyd ef yn Norbury SW16. O 1949 hyd 1961 bu’n cyd- ddarlithio â David Sims yn Adran Saesneg, Prifysgol Cymru, Abertawe. Un flwyddyn penderfynodd y ddau i ychwanegu at eu cyflog drwy farcio papurau Saesneg arholiad Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Derbyniodd y ddau o gwmpas wyth cant o bapurau i’w marcio. Yn 1991 cyhoeddwyd “Vintage Amis Memories” ac yn y gyfrol mae Kingsley Amis yn dwyn i gof un o’i ymweliadau â chartref David Sims. Am iddynt sylweddoli fod angen llonydd llwyr arnynt i farcio’r papurau, meddai’r awdur.

“..... dyma bacio y papurau - un deg chwe thudalen pob un - i drwnc, a dal y bws i Dredegar Newydd, lle y buasai mam weddw David yn gofalu amdanom. Yna, ym mharlwr y bwthyn, un bob ochr i’r tân eisteddodd y ddau ohonom am ryw naw awr bob dydd i farcio’r papurau. I ymlacio ar ddiwedd y dydd fe wnaethom fwynhau gwydriad o Guinness mewn tafarn ym Margod i lawr y ffordd.”

Dwy nofel gyntaf Kingsley Amis oedd ‘Lucky Jim’ a ‘That Uncertain Feeling’. Cyhoeddwyd y gyntaf yn 1954 a’r llall flwyddyn yn ddiweddarach; lleolwyd yr ail fwy neu lai yn Abertawe. Yn 1962 y dangoswyd y ffilm “Only Two Can Play” gyntaf. Mwynheais ei gwylio, yn enwedig Kenneth Griffiths, brodor o Benally, Sir Benfro, un o’m hoff actorion. Yn 1986 cyhoeddodd Kingsley Amis ei ail nofel ar bymtheg a enillodd iddo wobr Booker, ‘The Old Devils’! Addaswyd hi, nofel arall a’i chefndir yn Abertawe, ar gyfer y teledu a ffilmiwyd rhannau ohoni yn Llangrannog.

Bu farw'r athronydd Syr Henry Jones ar y 4ydd o Chwefror 1992 yn Yr Alban. Ganwyd ef yn Llangernyw, Sir Ddinbych, yn 1852. Ei ail frawd, John, oedd taid Waldo Williams (1904-71). Bu Syr Henry Jones yn athro athroniaeth ym Mhrifysgol Glasgow o 1894 hyd 1922. Yn 1895 aeth Thomas Jones (1870-1955), Rhymni, yn fyfyriwr i astudio wrth droed Syr Henry Jones - dylanwadodd ef yn fawr ar T.J. a chefnogodd ef i ddod yn was sifil dylanwadol yn Llundain. Fe gofir am Syr Henry Jones, nid yn unig fel cyfaill i Lloyd George yr oedd yn ei ysgogi a’i gefnogi yn ystod y Rhyfel Mawr. Fe gofir amdano hefyd yn gweithio yn ddiwyd dros wella darpariaeth addysg yng Nghymru. Roedd yn amlwg yn y gwaith i sicrhau Deddf Addysg Ganolradd 1889 ac ef a ddyfeisiodd dreth y ceiniog, ”ceiniogau’r tlodion” i dalu am addysg uwch. Canfasiodd Thomas Jones Lloyd George i gefnogi ei gyn-ddarlithydd a chyfaill i dderbyn anrhydedd, Cydymaith Anrhydedd. Ceir dwy ysgrif deyrnged Thomas Jones i Syr Henry Lloyd yn ei gyfrol ‘The Native Never Returns’, 1946. Yn yr ail ysgrif mae T.J. yn dwyn i go’ y gorchymyn a gafodd gan y darlithydd ychydig wythnosau wedi iddo ddechrau mynychu ei ddarlithoedd, i dynnu ei sylw drwy ddangos ei oriawr iddo bum munud cyn diwedd y ddarlith!

Symudodd Thomas Jones o’r Barri i Lundain yn 1916. Ymhen pedair blynedd gwrthododd bedwar cynnig i gael y swydd o fod yn brifathro cyntaf Prifysgol Cymru, Abertawe. Gwell oedd ganddo aros yn Llundain fel gwas sifil dylanwadol a bod yn gefn i Lloyd George. Yn ystod 1922, tu ôl i’r llenni gwleidyddol roedd Thomas Jones a’i fys ym mrwes y llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn fel swyddog y Cabinet gwnaeth gyfraniad eithriadol bwysig i sicrhau cytundeb Iwerddon gan fod Lloyd George â meddwl uchel ohono ac yn derbyn ei gyngor. Bu mewn trafodaethau cyson ag Arthur Griffith, sylfaenydd Sinn Fein. Pan fu ef farw ar Awst y 12fed 1922, T.J. a gynrychiolodd Lloyd George yn yr angladd. Wythnosau yn gynt anrhydeddwyd Thomas Jones â rhodd Ll.D. gan ei hen brifysgol yng Nglasgow.

# Cig Oen "Giouvetsi"

Mae bwyta cig oen rhost adeg y Pasg yn draddodiad mewn nifer o wledydd, ac yn enwedig yng Ngwlad Groeg. Yno ar fore Sul y Pasg, fe welwch ŵyn cyfan yn cael eu rhostio dros dân agored o flaen y tai ymhob tref a phentref – gan gynnwys Athen ei hun. Fe'ch gwahoddir weithiau i gyfrannu i hwyl yr ŵyl trwy droi'r bêr wrth i chi gerdded heibio!



Ond er taw pryd traddodiadol o Roeg sydd gen i y mis hwn, ac mae'n defnyddio cig oen, ni welwch hwn yn cael ei weini yno adeg y Pasg. Cig rhost yw brenin y diwrnod arbennig hwnnw. Ond rwy'n hoff iawn o'r pryd hwn: mae'n syml i'w baratoi, yn flasus dros ben - ac nid oes rhaid ei wylio'n gyson a thendio arno am oriau.

O gofio taw pryd gwerinol ydyw, rwy wedi cadw at y fersiwn symlaf ohono. Cewch ychwanegu gwin coch, dail llawryf ac ati os dymunwch, neu ddefnyddio cig eidion neu ffowlyn: rwy wedi gwneud *giouvetsi* cig eidion mâl (*mince*) cyn hyn, a hynny'n ddigon llwyddiannus! Hanfodion y pryd yw cig, tomatos, y pasta bychan bach a elwir *krithiraki* yng Ngroeg, ac *orzo* yn yr Eidal – a sinamon. Mae'r sbeis hwnnw'n bwysig iawn er mwyn rhoi ei flas arbennig i'r pryd.

Daw enw ei hun o'r ddysgl bridd, y *güvec*, a ddefnyddid yn draddodiadol ar gyfer y pryd hwn. Ond mae sosban draddodiadol Cymru yn gwneud y tro yn iawn - i ddechrau, beth bynnag, cyn i chi drosglwyddo'r pryd i'r ffwrn.

## Cynhwysion (pryd i bedwar)

450g cig oen, mewn un darn os yn bosibl
2 lwy fwrdd o olew
1 wynwnsyn
3 hoelen garlleg
1 tun o domatos (400g)
1 llwy de o sinamon
Cwpan a hanner o basta *krithiraki* (neu *orzo*)
Caws mâl (*kephalotiri* – Groeg; *pecorino* – Eidal)

## Dull

Rhowch yr olew yn y sosban a meddalwch y wynwns a'r garlleg ynddo. Ychwanegwch y cig, a'i droi nes ei fod yn frown ar bob ochr. Yna ychwanegwch bopeth arall *ond* y pasta a'r caws, a'i gymysgu'n dda.




Yna rhowch y cyfan yn y ffwrn (170C, nwy 3) a'i adael am awr. Mae'n ddoeth i roi cip arno o bryd i'w gilydd, gan droi'r gymysgedd ac ychwanegu dŵr ati os yw'n edrych yn sych. Rhowch y pasta i mewn hanner awr yn unig cyn y byddwch am fwyta, gan ychwanegu rhagor o ddŵr yn ôl y galw. Mae'n werth cadw golwg ar y pryd yn ystod yr hanner awr olaf hwn oherwydd mae'r pasta'n llyncu'r dŵr yn gyflym.

Yna gweinwch y pryd, gan daenu caws mâl drosto yn ôl eich dymuniad. Ac ie, cewch ei weini gyda salad Groegaidd hefyd, os dymunwch – ond cas gen i gaws *feta,* felly ni chewch rysait am hwnnw gen i!

Menter Iaith Sir Caerffili

# CLWB CERDDED

## 10:00 - 12:00

**Mehefin 1 June**

**Parc Cwmcarn - C**wrdd yn y maes parcio / *Meet in car park*

**NP117FA**

**Mehefin 8 June**

**Machen** - Cwrdd tu allan / *Meet outside* 'Canolfan Cymunedol Machen'

**CF83 8ND**

**Mehefin 15 June**

**Sirhowy** - Cwrdd wrth tafarn Halfway House / *Meet at the Halfway House Tavern* NP122HT

**Mehefin 22 June**

**Parc Cwm Darran** - Cwrdd yn y maes parcio / *Meet in car park*

***CF819NR***

**Mehefin 29 June**

**Coedwig Bargoed** - Cwrdd yn maes Parcio Swyddfa Menter Caerffili

**CF819FW**

***A cyfarfod i drefnu teithiau nesaf ar y diwedd***

Rhaid gwisgo esgidiau cerdded addas

*You must wear suitable footwear*



kirabissex@mentercaerffili.cymru

01443 820913

Mwynhau'r Gymraeg

Menter Iaith Sir Caerffili

MENTRAU IAITH

Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968